



Mewnwelediadau data unigrwydd: Atodiad methodolegol

Mae'r atodiad hwn yn cyd-fynd â'r tri mewnwelediad data canlynol ar unigrwydd ac mae'n rhoi manylion am y data a'r methodolegau a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad:

Goldstone, R., Hodges, H., Durrant, H., a Taylor-Collins, E. (2021). **Pwy sy'n unig yng Nghymru?** Caerdydd. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Hodges, H., Goldstone, R., Durrant, H., a Taylor-Collins, E. (2021). **Iechyd ac unigrwydd cyffredinol yng Nghymru.** Caerdydd. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Hodges, H., Goldstone, R., Durrant, H., a Taylor-Collins, E. (2021). **Oedran ac unigrwydd yng Nghymru.** Caerdydd. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Ynglŷn ag Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cael ei gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar ran Llywodraeth Cymru. Daw'r sampl o gyfeiriadau unigol yn Ffeil Cod Post Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol, gyda chyfweiliadau'n cael eu cynnal ag un oedolyn a ddewiswyd ar hap (16+ oed) ym mhob cartref. Mesurwyd unigrwydd am y tro cyntaf yn Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2016/17, gyda'r un cwestiynau'n cael eu gofyn eto yn 2017/18 ac yn fwy diweddar yn 2019/20.

Ynglŷn â'r samplau

Ar draws y tair ton, ymatebodd 30,912 o unigolion unigryw i gwestiynau am unigrwydd – mae ymatebwyr yn cael eu hatal rhag cymryd rhan yn Arolwg Cenedlaethol Cymru am bedair blynedd ar ôl cymryd rhan mewn unrhyw arolwg cymdeithasol ONS (Llywodraeth Cymru, 2019). Fodd bynnag, ni wnaeth pob un gwblhau'r cwestiynau cymdeithasol-ddemograffig amrywiol a gynhwyswyd yn yr arolwg.

Mae'r mewnwelediad '**Pwy sy'n unig yng Nghymru?**' yn seiliedig ar ymatebion heb eu pwysoli unigolion o bob rhan o Gymru a atebodd gwestiynau ar unigrwydd a'r cwestiynau priodol am eu nodweddion cymdeithasol-ddemograffig.

Mae'r mewnwelediad '**Iechyd ac unigrwydd cyffredinol**' yn seiliedig ar ymatebion heb eu pwysoli 30,868 o unigolion o bob rhan o Gymru a atebodd gwestiynau ar: unigrwydd; iechyd cyffredinol; oed; ethnigrwydd; math o aelwyd ac a ddarparwyd eu cod post cartref.

Mae'r mewnwelediad '**Oedran ac unigrwydd**' yn seiliedig ar ymatebion heb eu pwysoli 30,788 o unigolion o bob rhan o Gymru a atebodd gwestiynau ar: unigrwydd; oed; iechyd cyffredinol; ethnigrwydd; anabledd ac a ddarparwyd eu cod post cartref.

Grwpio ymatebion

Er y gofynnwyd y rhan fwyaf o'r cwestiynau a ddefnyddiwyd yn y mewnwelediad data hwn mewn modd cyson ar draws tair ton Arolwg Cenedlaethol Cymru, mewn rhai achosion bu'n rhaid grwpio ymatebion i ganiatáu cymharu ar draws gwahanol donnau. Er enghraifft,

oherwydd niferoedd isel, bu'n rhaid cyfuno'r rhai sy'n nodi eu bod mewn partneriaeth sifil gofrestredig o'r un rhyw â'r rhai sy'n nodi eu bod yn briod. At hynny, mae arolwg 2017/18 yn cynnig ystod fwy o ymatebion posibl i gwestiynau ar grefydd a chyfeiriadedd rhywiol nag arolygon 2016/17 a 2019/20. Er mwyn caniatáu cymhariaeth, mae ymatebion o set ddata 2017/18 wedi'u grwpio a'u cyfuno.

Ym mhob arolwg, roedd gan ymatebwyr yr opsiwn i nodi 'Well gen i beidio â dweud' mewn perthynas â'u crefydd a'u rhywioldeb. Yn achos crefydd, dewisodd oddeutu 1% o'r ymatebwyr wneud hyn ac maent wedi'u heithrio o'r ymatebion dilys. Fodd bynnag, yn unol â'r ffordd yr adroddir ar gyfeiriadedd rhywiol yn nadansoddiad Llywodraeth Cymru o Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae'r rhai yr oedd yn well ganddynt beidio â dweud wedi'u cynnwys yn y grŵp 'Ymateb arall'.

Mae pennu cymhwyster addysgol uchaf ymatebwyr ar draws y tair ton wedi'i gymhlethu gan newidiadau i brosesau adrodd lefelau prentisiaeth yn 2017/18. Mae'r data a gyflwynir yma yn seiliedig ar y newidyn 'EduCat', sy'n cael ei adrodd yn gyson ar draws y tair ton, ac mae'n nodi amrywiad digonol yn y cymhwyster uchaf. Rydym wedi cyfuno'r niferoedd sy'n adrodd am gymwysterau eraill, cymwysterau tramor, a dim un o'r cymwysterau hyn / dim cymwysterau mewn un categori.

O ganlyniad i gyfuno ymatebion i'r tri arolwg, nid yw'n bosibl gwneud cymariaethau uniongyrchol â ffigurau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mesur unigrwydd

Defnyddir graddfa unigrwydd De Jong Gierveld gan Lywodraeth Cymru i asesu lefelau unigrwydd, gydag unigolion yn cael eu gofyn i ba raddau y mae'r datganiad yn berthnasol i'w sefyllfa. Mae'r datganiadau hyn wedi'u grwpio yn unol â Thabl 1 i ddarparu mesur cyffredinol o unigrwydd ynghyd ag is-raddfeydd sy'n adlewyrchu unigrwydd emosiynol a chymdeithasol.

Mae mwy o wybodaeth am gyfrifo unigrwydd cymdeithasol ac emosiynol ar gael yn De Jong Gierveld a Van Tilburg (2010; gweler hefyd Tomás ac eraill, 2017; Uysal-Bozkir ac eraill, 2017; a Rodríguez-Blázquez ac eraill, 2021 ar gyfer asesiadau o ddilysrwydd y raddfa).

Ynglŷn â'r dadansoddiad coeden benderfynu

Cynhaliwyd dadansoddiad data ar gyfer mewnwelediadau 'Iechyd ac unigrwydd cyffredinol' ac 'Oedran ac unigrwydd' gan ddefnyddio gwaith dadansoddi gan fersiwn 26 SPSS a choeden benderfynu IBM. Dewiswyd coeden benderfyniad SPSS IBM yn hytrach na defnyddio dadansoddiad atchweliad gan fod y feddalwedd wedi'i chynllunio i nodi grwpiau a chwilio am berthnasoddd rhwng newidynnau 'rhagfynegydd' annibynnol (lefel iechyd cyffredinol, oedran, math o aelwyd, ethnigrwydd a chwintel Malc) o ran y dibynnydd neu newidyn 'targed' (unigrwydd), ac mae'n arddangos y wybodaeth hon mewn ffordd annhechnegol.

Mae coeden benderfynu IBM yn defnyddio prawf chi (x) sgwâr Pearson i benderfynu ar holltiadau mewn newidynnau sy'n ystadegol arwyddocaol i greu nodau 'rhiant' a 'phlentyn'. Felly mae'r goeden ddosbarthu sy'n deillio o hyn yn debyg i goeden deulu gyda changhennau neu lefelau gwahanol. Y dyfnder coed uchaf o dan y nod gwraidd yw 3. Trwy gydol y dadansoddiad, gosodwyd y nifer lleiaf o achosion ar gyfer nodau rhiant a phlentyn yn 100 a 50 yn y drefn honno. Ni fydd nodau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn yn cael eu rhannu. Mae hyn yn golygu na all unrhyw grŵp lefel gyntaf (e.e. lefel iechyd cyffredinol) mewn coed a gyflwynir fod â chyfanswm o ymatebwyr o dan 100. Yn yr un modd, ni all unrhyw grwpiau ail lefel (e.e. ethnigrwydd; math o aelwyd; cwintel Malc) fod â chyfanswm o ymatebwyr o dan 50. Y weithdrefn ystadegol sylfaenol (a elwir yn 'ddull tyfu' yn SPSS) a ddefnyddir ar gyfer yr adroddiad hwn yw canfod rhyngweithio awtomatig chi (x) sgwâr neu CHAID.

Mae'r tri mewnwelediad data i gyd yn defnyddio'r newidyn 'grŵp oedran' 5 grŵp (DvAgeGrp5). Gwnaethpwyd hyn i alluogi cynnal

dadansoddiad coeden benderfynu ar gyfer mewnwelediadau 'Oedran ac unigrwydd' ac 'lechyd ac unigrwydd cyffredinol'. Yr ymatebion sydd ar gael yw: 16-24, 25-44, 45-64, 65-74, 75+. Mae hwn yn newidyn deilliedig sydd wedi'i gynnwys yn setiau data Arolwg Cenedlaethol Cymru. I gadarnhau ein canfyddiadau, defnyddiwyd newidyn parhaus ar gyfer oedran ('Oed') i gynnal dadansoddiad atchweliad trefnol i archwilio ymhellach y berthynas rhwng oedran

ac unigrwydd. Profodd hyn fod oedran yn gysylltiedig yn negyddol â lefelau unigrwydd cyffredinol, yn benodol bod pob cynnydd unigol mewn oedran yn cyfateb i fod yn 1% yn llai tebygol o fod yn unig ($\beta = -.011$, $p = 0.05$).

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am goeden benderfynu IBM yma: <https://www.ibm.com/uk-en/products/spss-decision-trees>

Tabl 1: Graddfa Unigrwydd De Jong Gierveld

Datganiad		Cyffredinol	Is-raddfa Emosiynol	Cymdeithasol Is-raddfa
1	'Rwy'n profi ymdeimlad cyffredinol o wacter'	Wedi'i fesur ar raddfa 0 i 6 – defnyddir sgôr o 4 i 6 i nodi'r rhai sy'n unig	Wedi'i fesur ar raddfa 0 i 3 – mae sgorau o 2 neu fwy yn cynrychioli unigrwydd emosiynol	
2	'Rwy'n colli cael pobl o gwmpas'			
3	'Rwy'n aml yn teimlo fy mod yn cael fy ngwrthod'			
4	'Mae yna ddigon o bobl y gallaf ddibynnu arnynt pan fydd gen i broblemau'			Wedi'i fesur ar raddfa 0 i 3 – mae sgorau o 2 neu fwy yn cynrychioli unigrwydd cymdeithasol
5	'Mae yna lawer o bobl y gallaf ymddiried ynddynt yn llwyr'			
6	'Mae yna ddigon o bobl rwy'n teimlo'n agos atynt'			

Addasiad o De Jong Gierveld a Van Tilburg, 2010

Awduron: Dr Helen Hodges, Ross Goldstone, Dr Hannah Durrant, Emma Taylor Collins

Ffynonellau

De Jong Gierveld, J., a Van Tilburg, T. 2010. **The De Jong Gierveld short scales for emotional and social loneliness: tested on data from 7 countries in the UN generations and gender surveys.** European Journal of Ageing. 7(2): 121-130. DOI [10.1007/s10433-010-0144-6](https://doi.org/10.1007/s10433-010-0144-6)

Rodríguez-Blázquez, C., Ayala-García, A., João Forjaz, M., Gallardo-Peralta, L, P. (2021). **Validation of the De Jong Gierveld Loneliness Scale, 6-item version, in a multiethnic population of Chilean older adults.** Australas Journal of Ageing. Retrieved from: 10.1111/ajag.12893

Tomás, J, M., Pinazo-Hernandis, S., Donio-Bellegrande, M., a Hontangas, P. M. (2017). **Validity of the de Jong Gierveld Loneliness Scale in Spanish older population: competitive structural models and item response theory.** European Journal of Ageing. 14 (4): 429-437.

Uysal-Bozkir, Ö., Fokkema, T., Macneil-Vroomen, J. L., van Tilburg, T. G., a Rooij, S. E. **Translation and Validation of the De Jong Gierveld Loneliness Scale Among Older Migrants Living in the Netherlands.** The Journals of Gerontology: Series B. 72 (1): 109-119.

Llywodraeth Cymru (2019). **Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19: Adroddiad Technegol.** Caerdydd: Gwasanaeth Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth a Llywodraeth Cymru.



Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chynghor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol

a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith Beth Sy'n Gweithio y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Hannah Durrant

Hannah.durrant@wcpp.org.uk

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG



www.wcpp.org.uk/cy



029 2087 5345



info@wcpp.org.uk



@WCfPP

